



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol: Cynrychiolaethau

Cyrol 3: 9622 rhan 1

BCW-9622/ [REDACTED] / Cas-gwent

[REDACTED]

Annwyl Mrs Ustus Jefford,

Hoffwn ddiolch i Shereen Williams am y llyfr Cynigion Cychwynnol. Gofynnaf i chi gadw fy holl wybodaeth bersonol, fy enw, cyfeiriad ac ati, yn breifat ac yn gyfrinachol, os gwelwch yn dda. Mae'r amrediad etholiadol cul a nifer yr etholaethau a ganiateir wedi gwneud newid yn rhan fawr o'r arolwg hwn. Mae'n ymddangos mai'r dasg yw cynnig y set orau bosibl o etholaethau i wasanaethu Cymru ar gyfer y dyfodol. Bydd unrhyw etholaeth benodol a ffurfir orau ar gyfer ardal benodol yn effeithio ar etholaethau eraill. Oherwydd yr effaith ganlyniadol, gellir 'teimlo' hyn nid yn unig gerllaw ond ymhell i ffwrdd. Felly, gall cyfansoddiad etholaeth effeithio ar y ffigyrau etholiadol ar gyfer etholaethau eraill. Gydag addasiadau canlyniadol. Sydd, yn aml, yn cynnwys ymarfer mewn rhifydddeg – 'gêm rifau'. Felly, er bod rhai etholaethau yn iawn, mae llawer o rai eraill nad ydynt yn iawn. Wrth gwrs, mae pawb yn dymuno cael y gorau i'r etholaeth y byddant ynddi. Felly, byddent yn dymuno set o etholaethau gyda'r etholaeth honno wedi'i chynnwys. Byddai hynny'n golygu set o 32 etholaeth, gyda phobl o etholaeth benodol eisiau'r set roedd eu hetholaeth ynddi, sydd orau iddyn nhw.

Felly, mae'n ymddangos mai tasg Arolwg 2023 yw cael y set o 32 etholaeth sy'n adlewyrchu ac yn gwasanaethu'r wlad yn y ffordd orau, ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol. Bydd hynny'n golygu y bydd yn rhaid cyfaddawdu, yn gyffredinol, a bydd pob etholaeth yn gyfaddawd. Mae'n amlwg na fydd hyn yn bodloni pawb. Mae'n debygol na fydd unrhyw un yn cael ei fodloni'n llawn. Bydd rhai pobl yn anhapus â'r 'trefniannau'. Ond rhaid i ni gael y 'trefniannau' mwyaf priodol ac addas ar gyfer pawb. Cymru sydd â'r gostyngiad mwyaf, ac felly, y sefyllfa anoddaf. Mae Lloegr yn cael cynnydd o ddeg etholaeth ac mae mewn sefyllfa fwy ffafriol ac mae'r dasg yn haws. Mae angen i ni greu etholaethau ymarferol ym mhob ardal ac ar gyfer pob ardal. Rydym yn ffodus yng Nghymru na fydd unrhyw etholaeth yn dod yn agos at y niferoedd mwyaf a ganiateir. Ond bydd angen etholaethau mawr o ran maint daearyddol mewn ardaloedd gwledig â phoblogaethau bach. Bydd hyn i'w deimlo yn arbennig yng Nghanolbarth Cymru. Yn wir, bydd gan Ganolbarth Cymru gyfan dwy neu dair etholaeth yn unig. O'r rhain, bydd dwy yn cael eu rhannu ag un o'r rhanbarthau eraill. Y peth gorau ar gyfer Canolbarth Cymru fyddai dwy etholaeth yn gyfan gwbl ar gyfer Canolbarth Cymru yn unig. Â'r ddwy yn seiliedig ar y ddwy ardal bwysicaf. Un ohonynt yn seiliedig ar 'brifddinas' Canolbarth Cymru, sef Aberystwyth. Gyda radiws o amgylch Aberystwyth yn ffurfio'r etholaeth. Ac un ohonynt yn seiliedig ar yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghanolbarth Cymru – sef Powys. Felly, byddai etholaeth Aberystwyth ac etholaeth Powys yn fwyaf priodol ac addas, y gorau ar gyfer Canolbarth Cymru. Felly, rhaid cofio bob amser y bydd newidiadau bach yn arwain at ganlyniadau gerllaw ac ymhellach i ffwrdd. Bydd angen mynd i'r afael â chyfansoddiad pob etholaeth a effeithir gan newid. Weithiau, oherwydd yr effeithiau canlyniadol, mae'n bosibl yr effeithir ar nifer fawr, cyfran fawr o'r etholaethau. Hyd yn

oed pob un o'r 32 etholaeth. Mae gwasanaethu Cymru orau ar gyfer y dyfodol yn golygu sicrhau'r set orau bosibl o 32 etholaeth. Rhaid trin pob ardal yn ffafriol.

Gellir ystyried yn fras bod tri phrif ranbarth yng Nghymru – sef y Gogledd, y Canolbarth, a'r De. Rhaid trin pob ranbarth yn ffafriol. Dylid osgoi'r demtasiwn i 'wasgu'r canol'. Nid yw Canolbarth Cymru yno i wneud iawn am y lleill. Mae'n haeddu ystyriaeth gyfartal â dau ranbarth arall y wlad. Rhaid rhoi ystyriaeth gyfartal i bob un. Dylid edrych ar yr arolwg hwn fel cyfle i gael yr etholaethau gorau, gorau oll, i Gymru ar gyfer y dyfodol. Gyda'r sefyllfa newydd, y dylai holl etholaethau'r DU fod â phoblogaeth debyg o ran niferoedd, gydag amrywiad o 10% plws/minws pump y cant yn uwch na chwota'r DU.

Mae enw etholaeth yn bwysig. Mae'n dweud rhywbeth am yr etholaeth. Felly, byddai'n dda i etholaeth gael enw y mae pawb yn ei adnabod. Yn bwysicach fyth, enw y gall pawb yn yr etholaeth ymgysylltu ag ef ac uniaethu ag ef. Er mwyn creu undod, un etholaeth, un hunaniaeth, byddai'n dda cael un enw. Felly, byddai'n well cael enw sydd yr un peth yn y ddwy iaith. Hefyd, byddai'n well peidio defnyddio cysyllteiriau. Dim ond dau neu dri enw gyda'i gilydd, e.e. Dwyfor Meirionnydd. Os oes rhaid defnyddio 'and/ a', gellid defnyddio'r ampersand (&) yn yr enw yn y ddwy iaith. Yna, gellid defnyddio un enw. Nid oes angen cael enw amgen dim ond oherwydd 'a/ and'. Bellach, mae tuedd i enw Cymraeg gael ei ddefnyddio. Gwneir hyn, er enghraifft, yn achos Ceredigion, ni ddefnyddir Sir Aberteifi erbyn hyn; felly hefyd, Ynys Môn (go brin y defnyddir 'Anglesey'). Yn yr un modd, mae hyn yn digwydd yn achos Caerfyrddin (cymharer Caerfyrddin/ Sir Gaerfyrddin). Mae'n debyg y bydd y duedd hon yn cynyddu. Dylai'r arolwg ddilyn hyn.

Yn rhyngwladol, rydym bellach yn defnyddio'r enw, o ran sillafu ac ynganu, a ddefnyddir yn yr ardal honno. Ni ddefnyddir yr enw Bombay mwyach, ond Mumbai. Nid Peking ond Beijing, yn y ffordd y mae'r enw'n cael ei ysgrifennu a'r ffordd y mae'n cael ei ddweud. Dylai'r arolwg ddilyn hyn. Gall enwau yn Gymraeg a Saesneg fod yn ddryslyd i rai pobl nad ydynt eisoes yn gyfarwydd ag enw lleoedd yn yr iaith arall. Er enghraifft, 'Newport'. Yn achos y ddinas hon, ei henw yn Saesneg yw 'Newport'. Byddai cyfieithu hyn i'r Gymraeg yn rhoi 'Porthladdnewydd' neu 'Porthdrefnewydd'. Ni fyddai unrhyw un yn gallu dod o hyd i 'Newport' yng Ngwent yn Gymraeg â hynny. Oherwydd yr enw yn Gymraeg yw Casnewydd, sy'n golygu 'Newcastle' yn Saesneg. Ni fyddech fyth yn dod o hyd i'r lle yng Ngwent wrth ddefnyddio'r cyfieithiad hwnnw. Ac mae'r un peth yn wir i'r gwrthwyneb. Rhaid i chi wybod yr enw eisoes yn yr iaith arall. Ni ddylid cymryd hyn yn ganiataol. Nid yw'n wir. Gall hynny olygu bod "pedwar enw" gan rai lleoedd! Gydag un enw, gellir osgoi hyn. Yn ogystal â rhoi un hunaniaeth. A ffurfio un etholaeth. Pan mae modd adnabod y lle yn y naill iaith a'r llall o'r ffordd y sillafir yr enw yn un o'r ieithoedd. Yna dylid defnyddio'r ffordd Gymraeg. Ar gyfer 'Rhymney', defnyddir y sillafiad Cymraeg yn hytrach na'r sillafiad Saesneg – Rhymni. Felly, un enw sydd ei angen. Nid oes angen enw amgen oherwydd y sillafiad – sef 'ey' ac 'i', yn yr achos hwn. Lle ceir amrywiad mewn sillafiad enw rhwng yr ieithoedd, rhoddir un enw ar gyfer yr etholaeth. Gan ddefnyddio'r sillafiad Cymraeg. Ni roddir enw amgen. Yn wir, pan fydd dau enw ar etholaeth, dylent fod yn yr un iaith. Ni ddylid cymysgu'r ieithoedd. Yn gyffredinol, byddai'r ffurf Gymraeg yn cael ei defnyddio. Byddai hynny'n golygu y byddai cysyllteiriau'n cael eu hepgor (efallai '&'). Felly, ffefrir un enw dwyieithog yn hytrach nag enwau deuol uniaith. Defnyddir enwau Cymraeg sy'n addas ar gyfer/ yn y ddwy iaith. Defnyddir un ffurf. Ceir cyfoeth o enwau Cymraeg traddodiadol sydd ar gael i'w

defnyddio. Weithiau, bydd enw Saesneg yn cael ei ddefnyddio ond â sillafiad Cymraeg – cyfaddawd, e.e. Milffwrdd, Hwlfordd, ac ati. Byddai gan etholaethau ddull etholaethol o ffurfio enwau. Yn gyffredinol, byddech chi'n dweud, yn Saesneg, "I am going to visit south Swansea". Rydych chi'n gwybod bod y person yn mynd i dde Abertawe. Pe bai rhywun yn dweud "I am going to visit Swansea South". Byddech chi'n meddwl y byddant yn ymweld â'r etholaeth yn rhan ddeheuol Abertawe. Ar gyfer defnyddio pwyntiau cwrmpawd, byddent yn dod BOB AMSER AR ÔL yr enw. Yn ôl-ddodiad i enw'r etholaeth, bob amser. Byddai pob etholaeth yn cael ei thrin yn yr un modd, ni waeth pa "fath" o enw a ddefnyddir. Ni fyddai'n amrywio, yn dibynnu p'un ai yw'n enw canolfan boblogaeth neu'n enw ardal gyngor. Fel etholaeth, byddai'r enw'n cael ei ffurfio gan ddefnyddio "dull etholaethol", sy'n dangos ei fod yn cyfeirio at etholaeth. Pan fydd dwy ran i enw etholaeth. Yn aml, ceir Prif enw ac enw Eilaidd. Mae'r cyntaf yn nodi'r lleoliad ac yn annibynnol ar y llall. Mae'r enw arall yn addasu neu'n cyfyngu/ rhoi ffin i'r Prif enw. Mae'n ddibynnol ar y llall. Gall yr enw annibynnol sefyll ar ei ben ei hun. Ond ni all y rhan ddibynnol sefyll ar ei phen ei hun – rhaid i'r rhan hon addasu rhywbeth. Daw'r Prif Enw yn gyntaf. Daw'r Enw Atodol yn ail. Y Prif Enw yw'r enw pwysicaf. Er enghraifft, mae 'Abertawe' yn sefyll ar ei ben ei hun. Nid yw hynny'n wir am 'De' (neu unrhyw bwynt cwrmpawd). Mae'n addasydd ac mae'n rhaid iddo addasu rhywbeth y mae'n eilaidd iddo ac yn ddibynnol arno. Pan fydd person eisiau chwilio am etholaeth (neu unrhyw beth) neu eisiau dod o hyd i'r etholaethau ar gyfer/ mewn lleoliad penodol, maen nhw'n chwilio am enw'r lle. Nid am bwynt cwrmpawd. Ni ddylai enw etholaeth fyth ddechrau â phwynt cwrmpawd. Rhaid iddo ddechrau ag enw. Mae hyn yn helpu pawb. Rhaid cael system HAWDD EI DEFNYDDIO. Byddai'r holl addaswyr – sef pwyntiau cwrmpawd, maestrefi, rhannau o ardaloedd ac ati – yn dod yn olaf. Dylid defnyddio pwyntiau cwrmpawd dim ond pan nad oes unrhyw beth arall ar gael, pan nad oes enw. Yng Nghymru, ni ddylai hyn godi. Mae gan Gymru gyfoeth mawr o enwau traddodiadol da. Mae enwau bob amser yn ddewis gwell ac yn dweud cymaint mwy. Maent yn fwy disgrifiadol ac yn fwy personol.

Wrth gwrs, o ran etholaethau Cymru, rhaid i'r holl etholaeth fod o fewn Cymru (fel y mae'n rhaid i holl etholaethau Lloegr fod o fewn Lloegr). Mae daearyddiaeth ffisegol Cymru yn gallu achosi problemau – mynyddoedd, bryniau ac ati. Gall hyn arwain at wahanu rhwng lleoedd. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn rhannau datgysylltiedig. Ceir "rhannau datgysylltiedig" pan fo nodwedd ffisegol yn golygu bod cysylltiadau ffisegol rhwng un rhan o etholaeth a rhannau eraill yn ei gwneud yn ofynnol i deithio trwy etholaeth wahanol. Mae hyn yn anodd yng Nghymru. Ond ceir lleoliadau yng Nghymru lle gall hyn ddigwydd. Mae angen osgoi hyn.

Ar ôl edrych trwy'r ddau lyfr – sef y 'Canllaw' a'r 'Cynigion Cychwynnol' – ni welaf unrhyw beth sy'n dweud na all etholaeth fynd ar draws, o un ochr i'r llall, h.y. o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr hyd at arfordir Cymru. Os bu etholaeth o'r fath yn y gorffennol, mae'n briodol nad yw'n bodoli bellach. O ran y rheoliadau statudol newydd, dylid caniatáu/ defnyddio pethau o'r fath. Mae'n rhaid bod "cysylltedd" yn bwysicach o lawer na ph'un ai oes gan etholaeth gymeriad a nodweddion cyffredin, ac mae hyn o'r pwys mwyaf. Felly, dylai etholaeth, yn hytrach na bod â 'rhannau datgysylltiedig', allu ymestyn o'r ffin i'r arfordir, er cysylltedd a dod â rhannau ynghyd sy'n debyg ac sy'n rhannu llawer â'i gilydd. Ceir sefyllfaoedd o'r fath yng Nghanolbarth Cymru. Dywed y llyfrau uchod na chaniateir "rhannau datgysylltiedig". Bydd yr uchod yn cael ei grybwyll yn y man penodol y mae'n digwydd – gweler isod.

Rhoddir rhai awgrymiadau o ran enwau ar gyfer etholaethau arfaethedig.

1. Enw'r fwrdeistref flaenorol oedd Port Talbot, ac enw'r fwrdeistref bresennol yw Castell-nedd Port Talbot. Felly, mae'n rhaid mai Port Talbot yw'r enw mwyaf addas ar gyfer etholaeth sy'n cwmpasu'r ardal hon. Mae'r un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg. Felly, yr enw Port Talbot a Phorthcawl.
4. Blaenau Gwent & Rhymni heb unrhyw enw amgen – gweler Blaenau Gwent & Rhymni uchod.
18. Defnyddir un ffurf yn unig, heb unrhyw enw amgen – gweler uchod. Merthyr Tudful & Aberdâr.
21. Maldwyn & Glyndŵr yw'r cyfan sydd ei angen – gweler uchod.
31. Wrecsam – mae'n amlwg beth mae hyn yn cyfeirio ato yn y ddwy iaith.

Lle mae enw yn amlwg yn y ddwy iaith, nid oes angen enw amgen, ac ni roddir un.

Mae angen cyfaddawdu gan bawb ar gyfer etholaethau priodol ac addas ledled Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen newidiadau o fewn etholaeth er mwyn creu etholaethau ymarferol mewn ardaloedd eraill (nid o reidrwydd yr ardaloedd cyfagos yn unig oherwydd effeithiau canlyniadol). Bydd newidiadau bach yn arwain at ganlyniadau gerllaw ac ymhellach i ffwrdd. Mae mynd i'r afael â chyfansoddiad pob etholaeth a effeithir gan unrhyw newid a'r effeithiau canlyniadol ar niferoedd yr etholwyr mewn etholaethau eraill, yn angenrheidiol ac yn ofynnol. Mewn rhai achosion, gall hyn effeithio ar bob etholaeth, pob un o'r 32.

Mae pa set o etholaethau rydych chi'n eu llunio, yn dibynnu ar ble rydych chi'n dechrau. Mae dechrau ar nifer o bwyntiau yn arwain, yn aml, at broblemau pan mae'n rhaid i chi eu rhoi at ei gilydd fel un. Felly mae'n rhaid gwneud addasiadau. I bob un ohonynt, weithiau. Rhaid i ni geisio bod yn deg ac yn gyfiawn i bawb ac i bob ardal.

Yn y Gymraeg, ceir confensiwn o fynd o'r Gogledd i'r De ac o'r Gorllewin i'r Dwyrain. Ymhlith yr holl etholaethau, mae Ynys Môn yn sefydlog. Felly, mae'n fan cychwyn delfrydol. O ran trefn/ dilyniant etholaethau, gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd. Ond ceir dwy brif ffordd yn bennaf – sef yn nhrefn yr wyddor neu mewn trefn ddaearyddol. Gwyddor pa iaith ydych chi'n ei defnyddio? Bydd hyn yn effeithio ar y dilyniant/ y drefn. Ond mewn unrhyw waith neu wrth ddefnyddio pethau o'r fath, mae gan bobl ddiddordeb yn eu hetholaeth a'r etholaethau cyfagos. Neu mewn ardal benodol neu ranbarth penodol o'r wlad. Mae hyn yn amlwg yn awgrymu'r dull daearyddol. Mae'r ffordd ddaearyddol yw HAWDD EI DEFNYDDIO. Dyma hefyd y ffordd orau, y ffordd fwyaf addas a phriodol, os ydych yn defnyddio mapiau ar bob lefel. Felly, dyma'r dull i'w ddefnyddio ar bob lefel. Defnyddir y ffordd ddaearyddol yma. Gan ddechrau yn y Gogledd Orllewin a symud tua'r dwyrain. Ond yn lle parhau o'r Gorllewin i'r Dwyrain, bydd tueddiad i fynd ymlaen bob yn ail. Felly i ddechrau, awn o'r Gorllewin i'r Dwyrain, tu'r dwyrain. Ac wedyn, o'r Dwyrain i'r Gorllewin, tua'r

gorllewin. Yna, o'r Gorllewin i'r Dwyrain, ac wedyn o'r Dwyrain i'r Gorllewin, bob yn ail, gan symud tua'r De. Felly bydd ychydig yn debyg i "neidr". Yn symud o ochr i ochr wrth fynd o'r gogledd i'r de yn barhaus. Cymaint ag y bo modd, dyma'r ffordd – y ffordd ddaearyddol – a ddefnyddir. Mae daearyddiaeth ffisegol Cymru a'r rheolau statudol yn golygu bod yn rhaid i etholaethau groesi rhanbarthau safonol Cymru. O ran ardaloedd a rhanbarthau. Felly, rydym yn symud o Ogledd Cymru i Ganolbarth Cymru, gydag etholaeth yn cwmpasu'r ddau ranbarth. Wrth i ni symud o Ganolbarth Cymru i Dde Cymru, ceir etholaeth sy'n cwmpasu'r ddau. Mae Canolbarth Cymru yn rhannu etholaeth â Gogledd Cymru ac mae'n rhannu etholaeth â De Cymru. Yn anffodus nid yw'n hawdd ymdrin â Chanolbarth Cymru. Er enghraifft, fel y nodir uchod, cynigir etholaeth Powys ac etholaeth Aberystwyth. Ond mae ystyriaethau statudol yn rhwystro hyn. Nid yw natur y tir yn helpu, na dosbarthiad y boblogaeth.

Wrth geisio gwneud rhai addasiadau. Mae newidiadau yn arwain at fwy o newidiadau. Gan arwain at effeithio ar y rhan fwyaf. Roedd yn ymddangos mai'r peth gorau fyddai creu set o etholaethau. Set o 32 etholaeth sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pob ardal. Felly, rhoddir set o etholaethau isod sy'n cwmpasu Cymru gyfan, y 32 etholaeth. Rwyf wedi ceisio rhoi grwpiau o etholaethau ar wahân ar ochrau neu ddalenni gwahanol fel y gellir gosod yr etholaethau hynny â gweddill yr etholaethau o'r ardal honno. Felly, gellir gosod yr etholaethau ar gyfer pob ardal/ lleoliad ochr yn ochr ag etholaethau eraill ar gyfer yr ardal honno. Wedyn, gall pawb wneud sylwadau ar bob un ohonynt. Ac felly, gallwn benderfynu ar yr ateb gorau. Efallai yr hoffech roi'r holl gynnig hwn ynghyd ag un lleoliad. Byddwn yn dychmygu y gallai pobl eraill hefyd fod wedi ymdrin â phob un o'r 32 etholaeth. Wrth gwrs, rydych chi'n gosod pob awgrym ar gyfer lleoliad penodol gyda'i gilydd fel y gall pobl eraill wneud sylwadau ar bopeth ar gyfer yr ardal honno, gan arwain at awgrymiadau a datblygiadau eraill. Mae pawb ohonom eisiau cael y gorau i Gymru, a gwasanaethu Cymru gyfan, wrth i ni newid i fod â 32 etholaeth yn unig. Byddwn yn dechrau ag Ynys Môn ac yn symud i lawr y wlad.

Rhoddir rhestr o'r etholaethau isod.

1. Ynys Môn 2. Arfon Dwyfor 3. Arfordir y Gogledd 4. Glyndŵr 5. Delyn 6. Alun & Glannau Dyfrdwy 7. Wrecsam 8. Maldwyn Meirionnydd 9. Aberhonddu Maesyfed Dinefwr 10. Ceredigion Preseli 11. Sir Benfro 12. Caerfyrddin 13. Llanelli Llŵchwr 14. Abertawe- Gŵyr 15. Abertawe- Port Tennant 16. Castell-nedd & Thawe Uchaf 17. Port Talbot & Maesteg 18. Pen-y-bont 19. Ogwr & Y Rhws 20. Y Barri & Phenarth 21. Caerdydd- Y Castell 22. Caerdydd- Llandaf 23. Caerdydd- Y Mynydd Bychan 24. Casnewydd- Sant Gwynllyw & Chaerdydd- Llaneirwg 25. Casnewydd- Maendy 26. Wysg 27. Llwyd 28. Ebwy 29. Sirhowi Rhymni 30. Merthyr Aber 31. Cynon Taf 32. Rhondda Trelai

Noder: gallai chwe etholaeth y cymoedd fod â'r gair 'cwm' neu'r gair 'cymoedd' yn eu henwau. Ond yn draddodiadol, bu ganddynt enw'r cwm yn unig, e.e. Rhondda. Bydd y traddodiad hwn yn parhau yma. Felly, dim ond enw'r cwm, heb y gair 'cwm' neu 'cymoedd'. Mae hyn hefyd yn berthnasol i rif 13, lle rhoddir Llŵchwr ac nid Cwm/ Dyffryn Llŵchwr.

Etholaethau ar gyfer Cymru


Enw'r Etholaeth: Etholwyr yr Etholaeth

Amlinelliad o'r Etholaeth: Wardiau'r Etholaeth.

Rhesymau, nodweddion, manteision yr Etholaeth.

Enw'r Etholaeth – posibiliadau eraill, yr enw gorau, ac ati

1. Ynys Môn



Wardiau

Ynys Gybi, Caergybi, Llifon, Bro Aberffraw, Bro Rhosyr, Aethwy, Seiriol, Lligwy, Canolbarth Môn, Talybolion, Twrcelyn

Rhesymau


Mae'r gymuned ynys hon yn unigryw ac mae angen ei chynrychiolaeth ei hun. Penderfynodd Senedd y DU fod angen cadw cymunedau ynysoedd a rhoi cynrychiolaeth iddynt; mae dwy etholaeth yn Lloegr, dwy etholaeth yn yr Alban ac un yng Nghymru sy'n etholaethau gwarchodedig trwy statud. Felly, rhaid iddynt ffurfio eu hetholaethau eu hunain. Felly, etholaeth ynys yw Ynys Môn.

Enw

Mae'r enw Ynys Môn yn adnabyddus i bawb bellach ac fe'i defnyddir gan bawb. Fe'i defnyddir yn Saesneg ac yn Gymraeg. Dyma'r enw a ddefnyddir yn lleol. Anaml y defnyddir yr enw 'Anglesey'. Defnyddir Ynys Môn yn y ddwy iaith. Nid oes angen enw amgen ac ni fyddai enw amgen yn bodoli. Ynys Môn fyddai'r ffurf sengl ar gyfer yr etholaeth hon.

2. Arfon Dwyfor

69979



Wardiau

Capel Ulo (1284), Pant-yr-afon/ Penmaenmawr (2167) Pandy (1463) Bryn (1390), Arllechwedd (1091) Gerlan (1696) Ogwen (1697) Tregarth a Mynydd Llandygai (1628) Garth (556) Hiracl (1066) Marchog (1579) Deiniol (920) Menai (B) (1548) Glyder (1257) Hendre (940) Dewi (1301) Pentir (2159) Y Felinheli (1803) Bethel (1025), Menai (c) (1724) Cadnant (1514) Seiont (2233) Peblig (1603) Cwm-y-Glo (753) Llanrug (1396) Penisarwaun (1365) Deiniolen (1463) Llanberis (1613) Waunfawr (1298) Llanllyfni (915) Tal-y-sarn (1399) Llanwnda (1507) Groeslon (1374) Penygroes (1369) Clynog (736) Llanaelhaearn (1187) Nefyn (1003) Morfa Nefyn (945) Tudweiliog (668) Aberdaron (698) Botwnnog (734) Llanengan (847) Abersoch (519) Llanbedrog (709) De Pwllheli (1310) Gogledd Pwllheli (1528) Efail Newydd/ Buan (1026) Abererch (986) Llanystumdwy (1547) Criccieth (1280) Dolbenmaen (900) Gorllewin Porthmadog (1329) Dwyrain Porthmadog (1178) Porthmadog-Tremadog (933) Penrhyndeudraeth (1826)


Rhesymau

Bu Arfon a Dwyfor yn ardaloedd cynghorau dosbarth. Cyn hynny, roedd y ddwy ardal yn rhan o Sir Gaernarfon. Yn wir, am y rhan fwyaf o'u hanes. Maent wedi bod gyda'i gilydd ac mae ganddynt fwy o gysylltiad â'i gilydd nag sydd gan y naill neu'r llall â Meirionnydd (fel sir neu fel ardal cyngor dosbarth). Mae'r bobl yn debyg iawn i'w gilydd ac mae ganddynt lawer yn gyffredin.

Enw

Mae'r enwau hyn yn adnabyddus ac yn disgrifio'r ardal yn dda. Felly, maent yn addas ar gyfer enw'r etholaeth. Mae Arfon yn fwy poblog, a daw'n gyntaf yn nhrefn yr wyddor. Felly gwelir dilyniant/ trefn yr enwau hyn yn enw'r etholaeth.

3. Arfordir y Gogledd/ North Coast



Rhesymau

Mae'r "trefi gwyliau" ar hyd yr arfordir yn rhannu cysylltiadau o ran y lleoliad arfordirol a gwasanaethu 'anturiau gwyliau'. Mae'r mewndir yn wledig yn bennaf. Mae cysylltiadau rhwng y ddwy ardal. Mae'r awdurdodau lleol yn cynnwys y ddwy. Hefyd, maen hyn cynorthwyo â'r niferoedd ar gyfer yr amrediad etholiadol. Disgrifir yr etholaeth yn dda ac yn briodol.


Enw

Dyma brif nodwedd yr ardal – yr arfordir. Dyma pam y datblygodd fel y mae. Posiblirwydd arall yw enwi'r etholaeth ar ôl tref ar naill ben yr etholaeth a'r llall. Felly, Conwy Abergele. Mae gan hyn y fantais o fod yr un peth yn y ddwy iaith ac felly dim ond un ffurf sydd ei hangen.

Noder: nid yw'r amlinelliad o'r etholaeth yn dangos Llansannan, fel y dylai.

4. Glyndŵr

75,500

Rhesymau


Roedd hon yr ardal Cyngor Dosbarth Glyndŵr. Bellach, mae'n ffurfio rhan fawr o Sir Ddinbych. Mae'r ardal yn unffurf, â chysylltiadau hir. Mae'n perthyn yn bendant i Ogledd Ddwyrain Cymru. Mae'n cynnwys holl ardal Rhiwabon.

Enw

Ar un adeg, bu'n rhan o Sir Clwyd. Mae'r enw yn rhoi un ffurf sydd yr un fath yn y ddwy iaith. Roedd Sir Clwyd yn ymestyn o Afon Dyfrdwy i Fae Colwyn. Felly, mae gan Glwyd gysylltiadau ag etholaethau cyfagos hefyd. Mae Prifysgol Glyndŵr wedi'i lleoli yma, yn ogystal. Mae Delyn, Alun a Glannau Dyfrdwy, a Wrecsam, yn enwau ardaloedd cynghorau dosbarth blaenorol yng Nghlwyd. Felly hefyd Glyndŵr. Mae pob un yn mynd gyda'i gilydd.

5. Delyn

62,031



Rhesymau


Dyma ardal cyngor dosbarth yn flaenorol, yn ogystal â bod yn etholaeth bresennol. Mae bellach yn rhan o Sir y Fflint, a bu cysylltiad hir rhwng yr ardaloedd.

Enw

Mae pobl yn adnabod ac yn uniaethu a'r enw a fu gynt yn enw ardal cyngor dosbarth.

6. Alun a Glannau Dyfrdwy/ Alyn and Deeside

75,721

Wards

Connah's Quay - Gofdyn (3688) - Central (2213) - South (4494) - Wepre (1647)
 Shotton - West (1464) - East (1219) - Higher (1669) Aston (2508)
 Queensferry (1248) Maestri (2516) Hawarden (1623) Sealand
 (2026) Saltney Mould Junction (1100) Saltney Stonebridge (2672)
 Broughton - North East (1723) - South (3325) Ewloe (4327)
 Penyffordd (3543) Mold - East (1556) - Broughton (2134)
 - South (2201) - West (1956) New Brighton (2414) Argoed (2167)
 Buckley Bistre - West (3182) - East (2653) Buckley - Mountain (2555)

Enw a Rheswm

Dyma enw ardal cyngor dosbarth blaenorol ac mae'n adnabyddus. Dyma hefyd y rheswm drosto. Mae'n cynnwys yr Wyddgrug yn ogystal, oherwydd y cysylltiad agos â Bwcle. Maen nhw'n mynd gyda'i gilydd yn naturiol. Gellid defnyddio Shotton ar gyfer ffurf sengl.

7. Wrecsam

74,628

Wards

Rossett (2643) Llay (3513) Marford & Hoseley
 (1824) Gresford East & West (2337) Gwersyllt - East &
 South (3601) - West (2263) North (1995) Brymbo (3021)
 Bryn Cefn (1543) New Broughton (2842) Gwernfro (1217)
 Coedpoeth (3482) Little Acton (1843) Acton (2177)
 Borras Park (1968) Rhosnesni (2827) Cartrefile (1545)
 Wynnistay (1159) Smithfield (1376) Queensway (1377)
 Whitegate (1594) Hermitage (1544) Erdig (1444)
 Offa (1428) Brynnyffynnon (2477) Grovernor (1698)
 Stantyt (1641) Garden Village (1656) Holt (2479) Ponciau (3521) Eschurham
 (2013) Marchwiel (1830) Overton (2710) Bronington (2620)

Enw a Rheswm

Dyma dref flaenllaw yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Noder: nid yw Johnstown a Phant wedi'u cynnwys gan eu bod yn gysylltiedig iawn ag ardal Rhiwabon.

8. Maldwyn Meirionnydd 70,216

Wards

Beltus-y-Coed (967) Uwch Conwy (1276) Llangernyw (1104)
 Uwchaledd (1139) Bowydd & Rhw (1235) Dyffwysr Maenofferen (779)
 Teigi (1355) Transgynydd (1088) Harlech (1516) Llandbedr (768)
 Dyffryn Ardudwy (1169) Abernaw (1501) Llangelynau (1625) Tywyn
 (2476) Aberdyfi (907) Bryn-cony/Llangfihangel (772) Dolgellau - North (953)
 - South (1072) Borthol & Llangfihangel/Ganllwyd/Llanelltyd (1137) Corris/Mawddwy
 (1023) Llanwrachitlyn (686) Bala (1413) Llandderferi (1135) Llanwrthwl (1846)
 Llanharadr-y-m-Mochant/Llanglin (1815) Llanfyllin (1217) Llanfyllin (1563)
 Llandysilio (1441) Llandrinio (1763) Meirion (1069) Llangfihangel (895)
 Banwy (847) Llanfair Caereinion (1301) Guilsfield (11827) Trenewn (1066)
 Welshpool - Gungwy (1995) - Llanerchydol (1602) - Castle (962) Forden (1215)
 Berriew (1102) Rhinwyrion (1724) Caersws (1831) Llanbryn-mair (798)
 Glantrwymyn (1701) Machynlleth (1701) Montgomery (1107) Dolforwyn (1652)

Newtown Llanllwchafran - West (1447) - North (1796) Newtown - East (1401)
 - Central (2122) - South (1215) Llandinam (1155)

Rhesymau

Mae'r holl etholaeth hon yn rhan o'r un ardal wledig. Mae'r cyfan yn rhan ogleddol Mynyddoedd Cambria. Mae gan y bobl ym mhob rhan o'r ardal yr un fath o alwedigaeth, gyda ffermydd mynydd yn flaenllaw. Ceir cysylltiadau da drwy'r ardal ac mae dwy briffordd A yn cysylltu'r ddwy sir flaenorol - A470 > A458. Yn ogystal â rhai ffyrdd B. Maent wedi bod yn gysylltiedig ers amser maith. Maent yn ffurfio un etholaeth â phobl o'r un cymeriad neu gymeriad tebyg.

Wrth osod Maldwyn a Glyndŵr gyda'i gilydd, nid oes hanes yn eu cysylltu, mewn gwirionedd. Mae'r ddwy ardal yn rhannau gwahanol iawn o Gymru, gyda ffordd o fyw a chymeriad gwahanol. Nid oes unrhyw gysylltedd o gwbl. Yn ffisegol, daw Mynyddoedd y Berwyn rhwng Maldwyn a Glyndŵr – dim ond un trac bach sydd ar gael. I deithio o un rhan i'r llall, rhaid i chi fynd allan o'r etholaeth. Nid yw hyn yn wir am etholaeth Maldwyn a Meirionnydd. Yn wir, y ffordd orau (a'r gyflymaf) o deithio rhwng Maldwyn a Glyndŵr yw mynd allan o'r wlad i mewn i Loegr ac ar hyd ffyrdd yr A5 a'r A483 ac yna yn ôl i Gymru. Felly, nid yn unig y mae'n rhaid i chi fynd allan o'r etholaeth, ond rhaid mynd allan o'r wlad er mwyn teithio rhwng y ddwy ran. Felly, i bob pwrpas maent yn rhannau datgysylltiedig oherwydd, er bod Mynyddoedd y Berwyn yn gyffredin iddynt, ni allwch fynd trwodd. Mae'n rhaid i chi fynd i Loegr a heibio Croesoswallt er mwyn teithio o un rhan i'r llall. Mae hyn yn dda i ddim. Mae'n dangos nad oes unrhyw gysylltiad rhwng y ddwy. Maent yn bobl ar wahân i raddau helaeth, mewn sawl ffordd. Nid yw hyn yn wir am etholaeth Maldwyn a Meirionnydd. Ar ôl rhannau eraill o Bowys, mae Meirionnydd yn agosaf at Faldwyn – yn ffisegol ac yn ddiwylliannol. Gan na all Maldwyn fynd â Phowys. Yna dylai fynd â Meirionnydd. Dyma sydd agosaf at Faldwyn, ar ôl Powys.

Enw

Mae enwau'r hen siroedd ac ardaloedd cynghorau dosbarth blaenorol yn ymddangos yn enw da ar gyfer yr ardal. Y posibilrwydd arall yw Eryri & Phowys Faelog. Pan oedd Powys yn deyrnas ac wedi'i rhannu'n ogledd a de, yr enw a roddwyd i'r gogledd oedd Fadog. Gan fod yr ardal bellach yn rhan o Bowys, efallai mai defnyddio Powys fyddai orau. Ceir llai o ddefnydd o 'Snowdonia' erbyn hyn, a mwy o ddefnydd o'r enw Cymraeg, Eryri. Maen nhw'n ceisio cael pawb i ddefnyddio'r un enw, bellach. Mae'n amlwg bod Eryri yn nodwedd sylweddol yn yr ardal.



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru